**CYNGOR SIR PENFRO AC AWDURDOD PORTHLADDOEDD**

**DINBYCH-Y-PYSGOD A CHWM ABERGWAUN**

**ARCHWILIAD CYFRIFON 2024-25**

TRWY HYN RHODDIR RHYBUDD yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus 2004, a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 2014, (fel y'u diwygiwyd)

1. O ddydd Llun 5ed o Ionawr 2026 i ddydd Gwener 30ain Ionawr yn gynwysedig, y caiff unrhyw un â diddordeb, yn amodol ar Adran 30 y Ddeddf:

   (a) Archwilio a gwneud copïau ac ymholiadau ynghylch cyfrifon y cyrff a enwir uchod am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2025, a holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau perthynol trwy fewngofnodi i www.sir-benfro.gov.uk/cyllid-a-busnes/archwilio-cyfrifon.

   (b) Fel arall, mae cyfrifiaduron ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio gyda mynediad am ddim i'r rhyngrwyd ym mhob un o Lyfrgelloedd Sir Benfro, lle gellir cael y wybodaeth a nodir yn (a) uchod.

2. Ar neu ar ôl dydd Llun 2ail Chwefror 2026 am 10.00yb, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru neu ei gynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru, 1 Capital Quarter, Tyndall Street, Caerdydd, CF10 4BZ, ar gais unrhyw etholwyr llywodraeth leol o'r ardal y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddi, yn rhoi cyfle i'r etholwr neu ei gynrychiolydd ei holi am y cyfrifon drwy apwyntiad fideo ar-lein neu yn Swyddfa Archwilio Cymru, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP. Mae modd gwneud trefniant naill ai trwy anfon e-bost at *adrian.crompton@audit.wales* neu drwy ffonio 02920 320500. Rydym yn eich annog i drefnu apwyntiad ar-lein yn hytrach nag ymweld yn bersonol. Lle bo angen ymweld â Neuadd y Sir, caniateir mynediad trwy apwyntiad yn unig ac mae'n rhaid cadw at ganllawiau mynediad llym.

3. Fe all unrhyw etholwyr llywodraeth leol o ran unrhyw ardal y mae'r cyfrifon hynny'n berthnasol iddi, neu unrhyw gynrychiolwyr ar eu rhan, fynychu ger bron yr archwilydd a gwneud gwrthwynebiadau ynghylch

   a) unrhyw fater y mae gan yr archwilydd bŵer i wneud cais am ddatganiad ar ei gyfer dan Adran 32 y Ddeddf;

   b) unrhyw fater arall y gallai'r archwilydd wneud adroddiad arno dan Adran 22 y Ddeddf.

   c) Nid oes modd gwneud unrhyw wrthwynebiad dan (3) uchod gan neu ar ran etholwr llywodraeth leol oni bai fod yr archwilydd eisoes wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad arfaethedig ac ar ba sail y caiff ei wneud, a bod copi o'r rhybudd wedi'i anfon at y corff y mae ei gyfrifon yn destun archwiliad.

**J. HASWELL**
**CYFARWYDDWR ADNODDAU**